



Datblygiad Proffesiynol Parhaus CBAC

Telerau ac Amodau

Cadw lle ar gwrs Datblygiad Proffesiynol CBAC

- Dylech gadw eich lle ar ein holl gyrsiau ar-lein drwy [wefan CBAC](#). Byddwch yn derbyn e-bost cydnabyddiaeth awtomatig pan fyddwch yn cofrestru.
- Bydd cadarnhad pellach gyda manylion ynglŷn ag amseroedd a lleoliad, yn cynnwys manylion DPP ar-lein, yn cael ei anfon atoch chi drwy e-bost ddim hwyrach na 10 diwrnod cyn dyddiad y cwrs.
- Dylai cynrychiolwyr sicrhau eu bod wedi derbyn y manylion cadarnhau cyn mynychu cwrs. Cysylltwch â dpp@cbac.co.uk os nad ydych wedi derbyn y wybodaeth hon 5 diwrnod cyn dyddiad y cwrs.

Er ein bod ni'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod digonedd o leoedd ar gael, os yw'r cwrs yn llawn, cysylltwch â dpp@cbac.co.uk i fynegi eich diddordeb. Noder bod lleoedd ar ein cyrsiau AM DDIM wedi'u cyfyngu i un cynrychiolydd o bob Canolfan. Argymhellir felly eich bod yn cadw eich lle yn gynnar er mwyn osgoi siom. Nodwch ogydd bod ffioedd digwyddiadau yn berthnasol i pob mewngofnod unigol. Bydd ffioedd ycnwanegol yn ddyledus ble mae unigolion ychwaneol yn menwngofnodi ar y diwrnod.

-
- Ni fydd modd i chi gadw lle dros dro.

Prisiau ein cyrsiau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-22

- Mae cyrsiau sy'n cyflwyno manylebau newydd yn rhad ac am ddim.
- Mae cyrsiau ar-lein (gweminar) yn £100.
- Mae cyrsiau drwy'r dydd yn £210.
- Mae cyrsiau hanner diwrnod yn £105.

Ar gyfer cyrsiau y mae'n rhaid talu amdanynt, bydd anfoneb yn cael ei chreu hyd at 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Sicrhewch eich bod wedi'ch awdurdodi i gadw lle. Eich Canolfan (lle bo'n briodol) sy'n gyfrifol am wneud y taliad hwn.

Dyddiadau cau ar gyfer cadw lle

Y dyddiad olaf i gadw lle ar-lein ar gyfer ein holl gyrsiau yw 2 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Os hoffech gadw lle o fewn y cyfnod 2 diwrnod hwn, cysylltwch â dpp@cbac.co.uk yn uniongyrchol. Byddwn yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw geisiadau i gadw lle o fewn y cyfnod 2 diwrnod gwaith.

Diwygio eich manylion cadw lle

Pe byddai angen i chi ddiwygio eich archeb, er enghraifft newid manylion enw neu gyfeiriad, cysylltwch â dpp@cbac.co.uk. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad ar ddiwrnod y cwrs i unrhyw un sy'n mynychu'r digwyddiad nad yw wedi cofrestru.

Polisi Canslo Cynrychiolwyr

Gallwch ganslo ar unrhyw adeg hyd at 5 diwrnod gwaith cyn digwyddiad yn ddi-dâl (lle bo'n berthnasol). Cysylltwch â dpp@cbac.co.uk os hoffech ganslo eich archeb ac osgoi gorfod talu ffi. Os nad yw person yn mynychu a heb ganslo o fewn 5 diwrnod gwaith, codir y ffi llawn, lle'n briodol.

Canslo neu Ohirio'r Cwrs gan CBAC

Yn achlysurol, bydd angen i ni aildrefnu, newid lleoliad neu ganslo digwyddiad, ac rydym yn cadw'r hawl hwn. Os bydd hynny'n digwydd, byddwn yn gwneud pob ymdrech i roi cymaint o rybudd â phosibl i chi. Os byddwn yn canslo digwyddiad, byddwn yn ad-dalu ffioedd ar ffurf credyd.

Costau Cysylltiedig Eraill

Nid yw CBAC yn gyfrifol am unrhyw gostau cysylltiedig y mae'n rhaid i ganolfan neu gynrychiolydd eu talu yng nghyswllt y canlynol:

- Cadw lle ar/mynychu digwyddiad
- Canslo/gohirio digwyddiad
- Camddeall gwybodaeth CBAC/gwybodaeth wallus gan CBAC



Recordiadau Sain

Noder y bydd recordiad sain yn cael ei wneud ymhob digwyddiad yn unol â chanllawiau Cymwysterau Cymru/Ofqual.

Deunyddiau Cwrs

Bydd deunyddiau sy'n cael eu darparu yn ein digwyddiadau ar gael ar [Wefan Ddiogel CBAC](#) 24 awr ar ôl i'r digwyddiad olaf gael ei gynnal (fesul pwnc).

Parcio mewn lleoliadau DPP

- Nodwch nad ydym yn gallu gwarantu lle parcio mewn lleoliadau DPP yn cynnwys ar safleoedd CBAC.
- Cyfrifoldeb y mynychwr ydy talu am unrhyw gostau parcio.
- Ewch at wefan y lleoliad i wirio cyfleusterau parcio a trafndiaeth cyhoeddus.

Privacy Policy

- Cliciwch i weld ein [Polisi Preifatrwydd](#).